# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD IAU, 20 GORFFENNAF 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R C Stewart oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | W Evans |
| R Francis-Davies | D H Hopkins | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: A S Lewis

16. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr R C Stewart, J E Burtonshaw, M C Child, W Evans, R Francis-Davies, D H Hopkins, C E Lloyd, J A Raynor ac M Thomas fudd personol yng Nghofnod 29 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol";
2) Datganodd y Cynghorydd J E Burtonshaw fudd personol yng Nghofnod 28 "Cyfleusterau Addysgu Arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA)";
3) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor fudd personol yng Nghofnod 28 "Cyfleusterau Addysgu Arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA)";
4) Datganodd y Cynghorydd C E Lloyd fudd personol yng Nghofnod 24 “Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 Grant y Gronfa Trafnidiaeth Leol 2017/2018";
5) Datganodd y Cynghorydd W Evans fudd personol yng Nghofnod 24 Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 Grant y Gronfa Trafnidiaeth Leol 2017/2018”.

17. **COFNODION**

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2017.

## 18. ADRODDIAD(AU) ARWEINYDD Y CYNGOR

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y datganiad diweddar am drydaneiddio'r rheilffordd a dywedodd y bydd ef ynghyd â'r CLILC ac arweinwyr eraill y cyngor yn cyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## 19. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 20. HAWL I HOLI CYNGHORWYR

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 21. ALLDRO REFENIW 2016/17 - CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys manylion alldro CTR Dinas a Sir Abertawe o'i gymharu â'r gyllideb refeniw gymeradwy ar gyfer 2016-2017.

**PENDERFYNWYD** nodi'r amrywiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

## 22. ALLDRO REFENIW AC OLRHAIN ARBEDION 2016/17

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnwys manylion alldro refeniw 2016-2017. Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at gamgymeriad gyda'r ffigur terfynol yn y tabl ym mharagraff 4.4 mewn perthynas â'r cynnydd cyffredinol dros y tair blynedd diwethaf (%), mae angen ei newid i 4.1.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad;

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig a nodir yn Adran 7.3 yr adroddiad.

## 23. ALLDRO CYFALAF 2016/17

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnwys manylion alldro cyfalaf a'r arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

**PENDERFYNWYD:**

1) Trosglwyddo'r tanwariant net o'r gyllideb gymeradwy, sef £16.155m, i 2017-2018.

## 24. RHEOL GWEITHDREFN ARIANNOL 7 GRANT Y GRONFA DRAFNIDIAETH LEOL 2017/18

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd adroddiad a oedd yn cadarnhau'r cais am grant gan y Gronfa Drafnidiaeth Leol ac yn ceisio cymeradwyaeth i wario ar y cynlluniau a'r prosiectau arfaethedig yn 2017-2018.

**PENDERFYNWYD:**

1) **Cymeradwyo** cynlluniau'r Gronfa Drafnidiaeth Leol ynghyd â'u goblygiadau ariannol.

## 25. MONITRO ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2016/17

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn amlinellu'r perfformiad corfforaethol ar gyfer 2016-2017.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 26. Y DIWEDDARAF AM ROI'R MODEL O DDARPARIAETH NEWYDD AR WAITH AR GYFER ADDYSG HEBLAW YN YR YSGOL (EOTAS), AC ADBORTH O'R YMGYNGHORIAD DIWEDDAR Â RHANDDEILIAID

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am weithredu'r model newydd ar gyfer darparu Addysg Heblaw'r Ysgol (EOTAS) ac adborth o'r ymgynghoriad diweddar â rhanddeiliad.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi adborth yr ymgynghoriad a'r mesurau lliniaru:

2) Nodi'r cynigion ar gyfer y tŷ hanner ffordd dros dro;

3) Nodi'r cynnydd tuag at y llety tymor hir, a chyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet unwaith y bydd y dyluniad yn cael ei gadarnhau a bod sicrwydd cost yn cael ei gyflawni.

## 27. CYNIGION ARFAETHEDIG A BLAENORIAETHAU BUDDSODDI AR GYFER BAND B RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad er mwyn ystyried a chymeradwyo cynigion y dyfodol a'r blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

1) Ail gadarnhau'r nodau allweddol a ffocws y Rhaglen Amlinellol Strategol a gefnogwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru;

2) Cymeradwyo blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf arfaethedig Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif;

3) Cymeradwyo'r strategaeth ariannu arfaethedig er mwyn bodloni cyfraniad lleol y cyngor;

4) Nodi dyddiad dechrau arfaethedig yr ymgynghoriad statudol, lle y bo'n briodol, yn ddibynnol ar y cynigion blaenoriaeth nesaf, a fydd yn amodol ar yr adroddiadau ar wahân.

## 28. SEFYDLU CYFLEUSTERAU ADDYSGU ARBENIGOL (CAA) AR GYFER DISGYBLION AG ANHWYLDER Y SBECTRWM AWTISTIG (ASA)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn amlinellu canlyniad y cyfnod hysbysiad statudol ac yn ceisio penderfyniad ar y cynigion er mwyn sefydlu Cyfleusterau Addysgu Arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) yn Ysgol Gynradd Portmead, Ysgol Gynradd Dynfant ac Ysgol Gyfun Gellifedw o fis Ionawr 2018. Nododd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i Ysgol Gynradd Portmead ac Ysgol Gyfun Gellifedw ond cafwyd un gwrthwynebiad i Ysgol Gynradd Dynfant.

**PENDERFYNWYD:**

1) Sefydlu Cyfleusterau Addysgu Arbenigol ar gyfer disgyblion sydd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) yn Ysgol Gynradd Portmead, Ysgol Gynradd Dynfant ac Ysgol Gyfun Gellifedw o fis Ionawr 2018.

29. **PENODIADAU LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel y'u hargymellwyd gan Banel Penodi Llywodraethwyr yr ALl:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Brynmill | Y Cyng. Peter May |
| 2) | Ysgol Gynradd Casllwchwr | Mr John Butler |
| 3) | Ysgol Gynradd y Glais | Mr Mark James |
| 4) | Ysgol Gynradd Hendrefoelan | Mrs Kathryn Novis |
| 5) | Ysgol Gynradd Treforys | Mr Stephen Griffiths |
| 6) | Ysgol Gynradd Sgeti | Mrs Deborah Monaghan |
| 7) | Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph | Mr Joseph Blackburn |
| 8) | Ysgol Gynradd Waun Wen | Mrs Jeanette Simpson |
| 9) | Ysgol Gyfun Gellifedw | Mrs Catherine Watkins |
| 10) | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | Mr Dereck Roberts<br>Mrs Ann Cook |
| 11) | Ysgol Gyfun Treforys | Mr Graham Hanford |
| 12) | YGG Bryn-y-môr | Mrs Angharad Brown<br>Mrs Saran Thomas |
| 13) | YGG Lôn-Las | Parch Eirian Wyn |
| 14) | Ysgol Gyfun Gŵyr | Miss Aldyth Williams |

30. **GWAHARDD Y CYHOEDD**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 31. ADRODDIAD AR DDYFARNU CONTRACT - DYFARNU FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU TENANTIAETH YN SEILIEDIG AR OFAL A CHEFNOGAETH (BYW Â CHYMORTH) I BOBL AG ANABLEDD DYSGU NEU ANABLEDD CORFFOROL

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn amlinellu canlyniad tendrau diweddar i benodi darparwyr ar gyfer Cytundeb fframwaith i ddarparu Tenantiaeth yn seiliedig ar Ofal a Chefnogaeth (Byw â Chymorth) i Bobl ag Anabledd Dysgu a/neu Anabledd Corfforol ac yn ceisio cymeradwyaeth i benodi wyth darparwr i'r cytundeb fframwaith.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.25pm

Cyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2017.